






Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Grŵp Cyngor Technegol

Datganiad consensws ar brofi yng nghyd-destun brechu mewn perthynas â chartrefi gofal

25 Ionawr 2021



Grŵp Cyngor Technegol COVID-19 Llywodraeth Cymru: Datganiad consensws ar brofi yng nghyd-destun brechu mewn perthynas â chartrefi gofal

Cefndir

Mae Grŵp Cyngori a Blaenoriaethu Clinigol ar gyfer Profion Llywodraeth Cymru wedi ceisio barn is-grŵp ar brofi'r Grŵp Cyngor Technegol COVID-19 ynglŷn â goblygiadau brechu ar brofi i ganfod heintiadau'r feirws SARS-CoV-2. Nodwyd bod lleoliad y cartref gofal yn lleoliad â blaenoriaeth yr oedd angen arweiniad ar fyrder mewn perthynas ag ef a bwriad y datganiad hwn yw rhoi'r arweiniad hwnnw.

Asesu

- Mae'r broses o gyflwyno'r brechlynnau yn y camau cyntaf.
- Mae preswylwyr a staff cartrefi gofal yn grwpiau â blaenoriaeth uchel, ond ceir amrywiaeth sylweddol o ran nifer y rheini sydd wedi'u brechu rhwng cartrefi gofal unigol a rhwng unigolion ym mhob cartref gofal.
- Ar hyn o bryd, ceir ansicrwydd ynghylch faint o effaith gadarnhaol a gaiff yr ymdrech frechu – a fydd ei hun yn ddibynnol ar nifer o ffactorau – ar epidemioleg yr haint SARS-CoV-2 mewn cartrefi gofal.
- Mae'n debygol hefyd y bydd rhywfaint o amrywiad yn y bwloch rhwng gweinyddu'r dos cyntaf a'r ail ddos o'r brechlyn, ond y polisi presennol yw na ddylai'r bwloch hwn fod yn hwy na 12 o wythnosau.
- Ar hyn o bryd, mae lefelau heintio a throsglwyddo yn y gymuned yn uchel, felly ceir risg uchel y cyflwynir y feirws i gartrefi gofal. Mae'r sefyllfa hon yn cael ei dwysáu gan rôl esblygiadol yr amrywiolyn sy'n peri pryder (VOC 202012/01) y daethpwyd o hyd iddo'n ddiweddar i ysgogi epidemig mewn ardaloedd lleol.
- Mae heintiadau yn dal i ddigwydd ymhlith preswylwyr a staff cartrefi gofal ac mae profi yn dal i fod yn elfen cwbl ganolog o'r ymateb.

Argymhellion

- O ystyried yr uchod, nid yw cyflwyno'r brechlynnau i breswylwyr a staff mewn cartrefi gofal yn sylfaen gadarn ar gyfer torri i lawr ar yr ymdrech brofi sy'n gysylltiedig â'r lleoliad hwn ar hyn o bryd.
- Er gwaetha'r ffaith y bydd angen adolygu'r safbwynt hon o angenrheidrwydd, byddai'n gynamserol newid y safbwynt cyn cwblhau'r broses o gyflwyno'r cwrs cyflawn o frechlynnau i breswylwyr a staff cartrefi gofal.

Cafeatau

- Bydd llawer o'r ffactorau sy'n berthnasol i'r safbwynt hon, ac yn arbennig y ddealltwriaeth ynglŷn â'r diogelwch y mae brechlynnau yn ei ddarparu mewn amodau maes, yn newid dros amser. Dylai'r sefyllfa, a'r ymateb polisi, gael eu hadolygu'n barhaus felly.